Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Ebrill 2018

Amser: 09.31 – 10.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4833

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC David Rees AC
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC, Jane Hutt AC a Nick Ramsay AC.

2 Ymchwiliad i Danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.

3 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Gwasanaethau Archwilio Allanol Cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull ar gyfer caffael archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit: Llythyr gan y Llywydd (15 Mawrth 2018)

4.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau adnoddau Brexit ar faich gwaith y Pwyllgor a chytunodd ar ymateb i'r Llywydd.

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Dull o gynnal y gwaith craffu

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 2018-19

6.1 Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i gais cyllideb atodol yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus.